**Cofnodion Cyfarfod Cyntaf y Fforwm Aelodau Datganiad Technegol Rhanbarthol (DTRh)**
**Dydd Iau, 26 Mai 2005**
**Gwesty'r Seabank, Porthcawl**

| Yn bresennol | Camau gweithredu |
|---|---|
| **Aelodau:-**<br><br>Y Cyng P A Hacking, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr<br>Y Cyng S Wakefield, Cyngor Sir Caerdydd<br>Y Cyng A Robinson, Dinas a Sir Abertawe<br>Y Cyng B J Hall, Cyngor Sir Benfro<br>Y Cyng E K Griffiths, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili<br>Y Cyng A J Williams, Cyngor Bro Morgannwg<br>Y Cyng D D Games, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful<br>Y Cyng Hag Harris, Cyngor Bwrdeistref Sirol Ceredigion<br>Y Cyng A W Jones, Cyngor Sir Gaerfyrddin | |
| **Swyddogion:-**<br><br>M Hooker, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr<br>S Bool, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr<br>D Canney, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent<br>H Towns, Cyngor Sir Gaerfyrddin<br>C Morgan, Llywodraeth Cynulliad Cymru<br>A Wilkes, Asiantaeth yr Amgylchedd<br>J Coppock, Cyngor Sir Fynwy<br>A Bull, Cyngor Sir Powys<br>N Morgan, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot<br>S Williams, Cyngor Sir Caerdydd<br>R Henderson, Dinas a Sir Abertawe<br>K Maddock-Jones, Cyngor Cefn Gwlad Cymru<br>J Hooker, Cyngor Dinas Casnewydd<br>K Warren, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf<br>T Gilman, Cymdeithas Cynnyrch Chwareli (QPA)<br>C A Williams, Cyngor Sir Benfro<br>W Towell, Cymdeithas Cynnyrch Chwareli (QPA)<br>R Amundson, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili<br>M Lucas, Cyngor Bro Morgannwg<br>A N Davies, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | |
| **1. Ymddiheuriadau**<br><br>**Aelodau:-**<br><br>Y Cyng C Woodhouse, Cyngor Sir Fynwy<br>Y Cyng K Critchley, Cyngor Dinas Casnewydd | |

| | |
|---|---|
| Y Cyng D J Owens, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent<br>Y Cyng D Lewis, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot<br>Y Cyng A Breeze, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog<br>Y Cyng R Hayes, Parc Cenedlaethol Sir Benfro<br><br>**Swyddogion:-**<br><br>B Hollington, Llywodraeth Cynulliad Cymru<br>G Dorrington, Cyngor Ceredigion<br>D Pollock, Cymdeithas Cynnyrch Chwareli (QPA)<br>K Seaman, Cymdeithas Cynnyrch Chwareli (QPA)<br>M Lawer, Cymdeithas Cynnyrch Chwareli (QPA)<br>M Frampton, Cymdeithas Cynnyrch Chwareli (QPA)<br>G Reay, Lludw Cenedlaethol<br>J Golder, Ystadau'r Goron<br>S Martin, Llywodraeth Cynulliad Cymru | |
| **2. <u>Enwebiadau ar gyfer Cadeirydd ac Is-Gadeirydd</u>**<br><br>Gan mai dim ond un enwebiad a gafwyd ar gyfer y cadeirydd, sef y Cyng P Hacking (Pen-y-bont ar Ogwr), penodwyd hi'n gadeirydd.<br><br>Gan mai dim ond un enwebiad a gafwyd ar gyfer yr is-gadeirydd, sef y Cyng Alan Breeze (PCBB), penodwyd ef yn is-gadeirydd. | |
| **3. <u>Cadarnhad o'r memorandwm o ddealltwriaeth</u>**<br><br>Cymeradwywyd cynnwys y memorandwm yn amodol ar enw Cyngor Dinas Caerdydd yn cael ei newid i Gyngor Sir Caerdydd. | **SB** |
| Cadarnhaodd SB y byddai'n ebostio/postio copïau ychwanegol o'r memorandwm diwygiedig at aelodau'r awdurdodau er mwyn iddynt gael pwerau dirprwyedig (os oedd gofyn) i lofnodi'r memorandwm ar ran eu hawdurdod. Dylid anfon pob memorandwm llofnodedig yn ôl erbyn <u>17 Mehefin 2005</u>. | **Pob aelod** |
| **4. <u>Rhaglen DTRh Ddrafft</u>**<br><br>Cylchredwyd copïau o'r rhaglen DTRh ddrafft er mwyn ei hystyried cyn y cyfarfod. Esboniodd y Cadeirydd fod y rhaglen hon yn amlinellu'r amserlen ar gyfer cyfnodau allweddol o'r broses a allai fod yn destun oedi gan fod y broses yn newydd. Fodd bynnag, mae'r targed yn dal i fod yn fis Hydref 2006 ar gyfer gorffen y DTRh. | |
| Ni fynegwyd pryderon/sylwadau penodol am y rhaglen ond cydnabuwyd y byddai'n fuddiol gweld yr opsiynau drafft cyn eu terfynu. Ystyriwyd bod 6 wythnos yn gyfnod rhesymol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. | **SB** |

| | |
|---|---|
| **5. UFA**<br><br>Ni chodwyd unrhyw faterion eraill.<br><br>**6. Dyddiad y cyfarfod nesaf**<br><br>O ystyried y gofyn i drafod yr opsiynau drafft cyn symud i'r cyfnod terfynol, cytunwyd y byddai SB yn ceisio trefnu dyddiad ar gyfer canol mis Medi 2005. Dyddiad i'w gadarnhau.<br><br>Disgwylir i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Swyddfeydd Dinesig Pen-y-bont ar Ogwr.<br><br>**7. Cyflwyniad gan Enviros**<br><br>Rhoddodd Matt Faulkner / Paul Hatherley gyflwyniad ar y teclyn gallu amgylcheddol GIS roeddent wedi ei ddatblygu ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Pwysleisiwyd nad yw'r system yn darparu atebion pendant – mae'n arwain ac yn gwella'r broses benderfynu o ran blaengynllunio mwynau cynaliadwy.<br><br>Gofynnwyd nifer o gwestiynau am allu'r system i ystyried safleoedd cwsg; rheoli gosod trothwyon; argaeledd y system i awdurdodau cynllunio mwynau (ACM); cysondeb penodiadau tirwedd lleol; a sut fyddai'r broses yn cysylltu â phroses y DTRh.<br><br>Diolchwyd i Enviros am y cyflwyniad cyn cloi'r cyfarfod. | <br><br><br><br><br><br><br>**SB** |